

Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES | Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

GWELLIANT
CYMRU



IMPROVEMENT
CYMRU



“Pan fyddwch wedi cwrdd ag un person â dementia, byddwch wedi cwrdd ag un person â dementia”

Mae pawb yn wahanol.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio cynnwys y Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru. Bydd yn rhannu'r Siarter yn adrannau i'w gwneud yn haws rheoli deall Dementia a'i wneud yn haws ei ddeall.


Mae'r ddogfen hon ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn darparu gofal dementia ac yn canolbwyntio ar y person, gan gynnwys y canlynol ond nid y rheiny'n unig:

- Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd
- Pobl sydd â dementia
- Gofalwyr, aelodau'r teulu a chefnogwyr
- Rheolwyr ac arweinwyr
- Y cyhoedd

Fel y cyfryw, mae'r ddogfen wedi'i hadolygu i wneud y cynnwys mor hawdd i'w ddeall â phosibl.

Neges allweddol:

Bydd staff ysbytai'n siarad â'r sawl sydd â dementia, darparwyr gofal a theuluoedd am yr hyn y gallant ei ddisgwyl wrth gael gofal.



Mae darparu gofal o gwmpas
y person, adeiladu perthynas a
phartneriaethau'n thema drwy'r
ddogfen hon a dylid ei hystyried
o fewn pob egwyddor.



Rhagair

Gall mynd i'r ysbyty achosi dryswch, trallod a deliriwm weithiau i bobl sydd â dementia a'u gofalwyr a'u cynhalwyr.

Diben a chanlyniadau'r Siarter Ysbytai yw gwneud lle ar gyfer gwelliant ym mhrofiad pobl sy'n byw gyda dementia mewn gofal ysbyty.

Profiad sy'n cydnabod y personau, eu hamrywiaeth a'u dewisiadau sy'n cael eu llunio drwy gydnabod urddas, parch charedigrwydd.

Mae'r Siarter Ysbytai o'r cychwyn wedi dilyn pwyslais ar gyd-gynhyrchu. Mae darparu lleisiau cryf drwy'r Siarter gyda phwyslais ar ofal diogel yn canolbwyntio ar y person wedi'i seilio ar garedigrwydd ac urddas yn cael eu hystyried o fewn yr egwyddorion drwy gydol y Siarter.

Ar hyn o bryd nid oes gwella ar Dementia, ond gydag addasiadau gall newidiadau cadarnhaol gael eu gwneud i'r byd lle mae pobl â dementia yn byw.

Lleisiau dementia - Voices from Wales



Cyflwyniad

Mae Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru (y Siarter) yn amlinellu'r egwyddorion y dylai ysbyty sy'n deall dementia eu darparu. Dylai hyn gefnogi'n llwyr Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018- 2022, a'r weledigaeth yw:

'Creu cymdeithas heb stigma ... Lle mae pobl sydd â dementia yn parhau i fynd o gwmpas eu bywyd ac yn cael eu deall gan y cyhoedd yn fwy cyffredinol sy'n gwybod sut i ddarparu cefnogaeth.'

Mae'r Siarter yn darparu ffocws i bobl sydd â dementia a'u gofalmwyr tra byddant yn yr ysbyty. Mae'n amlinellu'r gofal, y driniaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gyflawni gweledigaeth y Cynllun Gweithredu ar Dementia a Llwybr Safonau Cymru ar Dementia. Yn 2019 dechreuodd Gwelliant Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, y broses o ddatblygu Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru.

Dechreuodd y cefndir i'r Siarter yn Lloegr yn 2012 pan lansiodd y Gynghrair Genedlaethol ar Dementia (NDAA) 'Right Care: a call-to-action' i greu ysbytai sy'n deall Dementia, a chyhoeddodd Siarter ar gyfer ysbytai Lloegr yn 2015.





Diben y Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru

Diben y Siarter yw galluogi ysbytai i greu profiad ac amgylcheddau sy'n deall dementia ac sy'n bodloni anghenion pobl sydd â dementia, eu gofalwyr a'u cefnogwyr yng Nghymru.

Bydd y Siarter...

- Yn gweithredu fel datganiad byr a chlir o'r egwyddorion allweddol sy'n cyfrannu at ysbyty sy'n deall dementia.
- Yn darparu set o egwyddorion a dangosyddion a fydd yn canolbwyntio ar anghenion pobl sydd â dementia a'u teuluoedd, eu gofalwyr a'u cefnogwyr.
- Yn rhoi gwybod i bobl beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn cael gofal ac yn ymweld ag ysbyty sy'n deall dementia.
- Yn adeiladu ar y sail a gynigir gan egwyddorion y Coleg Brenhinol Staff Nyrsio, Partneriaeth, Asesiad, Gofal ac Amgylchedd (SPACE). Mae hyn yn cynnwys y datblygiadau a'r adnoddau diweddaraf y gall ysbytai eu defnyddio i ddarparu gofal a chefnogaeth dementia.
- Yn cynnig canllaw gwelliant i helpu ysbytai gyda'u hunanasesiad yn erbyn yr egwyddorion deall dementia. Caiff y pwyntiau hyn eu trafod yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Bydd yr agweddau hyn yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn y ddogfen.

Y Datganiadau Dementia

Mae'r Datganiadau Dementia, a gyhoeddwyd yn 2017, yn adlewyrchu'r hyn mae pobl sydd â dementia a'u gofalwyr yn ei ddweud sy'n hanfodol i'w hansawdd bywyd. Cafodd y datganiadau hyn eu datblygu gan bobl sydd â dementia a'u gofalwyr, ac mae'r hawliau hyn wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf Cydraddoldeb, deddfwriaeth Gallu Meddyliol, deddfwriaeth iechyd a gofal a chyfraith hawliau dynol rhyngwladol. Caiff y datganiadau eu cefnogi'n llwyr gan Gynllun Gweithredu ar Dementia Cymru 2018-22 ac maent yn cynnwys:

- Mae gennym yr hawl i gael ein hadnabod am yr hyn ydyn ni, yr hawl i wneud dewisiadau am ein bywyd gan gynnwys cymryd risg a chyfrannu i'r gymdeithas. Ni ddylai ein diagnosis ein diffinio ni, ac ni ddylem fod â chywilydd ohono ychwaith.
- Mae gennym yr hawl i barhau gyda bywyd bob dydd a bywyd teuluol heb wahaniaethu na chost annheg. Mae gennym hawl hefyd i gael ein derbyn a'n cynnwys yn ein cymuned a ddim yn byw ar wahân neu mewn unigrwydd.
- Mae gennym hawl i gael diagnosis yn gynnar ac yn gywir.
- Mae gennym hawl i gael triniaeth a gofal wedi'i gyllido'n iawn ar sail tystiolaeth, gyda chydymdeimlad, yn cael ei ddarparu gan bobl wedi'u hyfforddi sy'n ein deall ni a'r ffordd mae dementia'n effeithio arnom. Rhaid i hyn fodloni ein hanghenion ble bynnag rydym yn byw.

- Mae gennym hawl i gael ein parchu a'n cydnabod fel partneriaid mewn gofal, gan dderbyn cael addysg, cefnogaeth, gwasanaethau a hyfforddiant i'n galluogi i gynllunio a gwneud penderfyniadau am y dyfodol.
- Mae gennym hawl i wybod a phenderfynu a ydym am fod yn rhan o waith ymchwil sy'n edrych ar achos, gwella, gofal ar gyfer dementia a chael ein cefnogi i gymryd rhan.
- Mae gennym hawl i gael ein trin heb wahaniaethu a chael ein parchu a'n cydnabod fel unigolion a'n diwylliannau.

Ac yng Nghymru:

- Mae gennym yr hawl i gael asesiad, gofal a chefnogaeth yn y Gymraeg heb orfod gofyn am hynny (yn unol ag egwyddor y cynnig rhagweithiol) os dyna mai sydd orau gennym ac os dyna sydd arnom ei angen.

Mae'r Siarter yn cefnogi dogfennau a deddfwriaeth allweddol yng Nghymru:

Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia

Mae'r Cynllun Gweithredu'n gosod allan strategaeth glir er mwyn i Gymru fod yn genedl sy'n deall dementia ac sy'n rhoi gwerth ar hawliau pobl sydd â dementia i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau. Mae'n addo ystyried hawliau, dymuniadau a dewisiadau pobl sydd â dementia wrth weithredu'r cynllun.

Llwybr Safonau Dementia Cymru Gyfan

Datganiadau yw Llwybr Safonau Dementia Cymru Gyfan sy'n adlewyrchu'r hyn mae pobl yn credu fydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal dementia yng Nghymru. Cawsant eu datblygu dros ddwy flynedd gan gynnwys dros 8000 o bobl sydd â dementia, i sefydliadau gwirfoddol i ymarferwyr ledled Cymru a'r Deyrnas Gyfunol. Ar ôl nodi rhestr o fwy na chant o safonau posibl, maent wedi'u cwtogi i 20 sy'n cael eu gweld fel elfennau allweddol i hyrwyddo gofal sy'n deall dementia ar draws Cymru.

Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal

Mae'r Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal yn cefnogi'r GIG a chyrrff sy'n bartneriaid wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol, hwylus o safon ym mhob sefyllfa iechyd. Cafodd saith thema eu datblygu drwy ymwneud â chleifion, clinigwyr a rhan-ddeiliaid, a'u nodi fel meysydd blaenoriaeth i'r GIG gael ei fesur yn eu herbyn. Mae'r fframwaith safonau'n tanlinellu pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae'r Siarter yn alinio â dogfennau allweddol eraill:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Blaenoriaethau trosfwaol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Effaith y pandemig COVID-19 ar ofal ysbyty i bobl â dementia. Coleg Brenhinol Seiciatreg 2020
- Y Fframwaith Dysgu a Datblygu Gwaith Da 2016

- Model Gartref yn Gyntaf: Rhyddhau i Adfer yna Asesu (Cymru) 2021
- Creu lleoedd a mannau iachach i'n cenedlaethau presennol a'r dyfodol
- Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer iechyd a Gofal Cymdeithsol 2018
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Mwy na geiriau/More than just words 2016
- Cynllun Gweithredu ar Dementia. Cryfhau darpariaeth i ymateb i COVID-19 2021

Egwyddorion SPACE

Set o bum egwyddor yw SPACE sy'n llunio ymrwymiad ar y cyd i wella gofal i bobl â dementia a'u teuluoedd. Ar sail tystiolaeth gan bobl sy'n byw gyda dementia, gofalmwyr ac ymarferwyr, mae pob egwyddor yn cael ei hystyried yn hanfodol i ddarparu gofal. Cafodd yr egwyddorion eu datblygu gan y Coleg Nyrsio Brenhinol a'u diweddarau yn 2019, ac maent wedi eu creu i'w defnyddio mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol ac i wella'r Siarter. Yn ystod yr ymgynghori ar Siarter Cymru teimlai rhan-ddeiliaid bod angen dwy egwyddor ychwanegol, felly mae Gwirfoddoli a Llywodraethiant wedi'u cynnwys (SPACE-VG).

Mae egwyddorion SPACE-VG yn cynnwys:

Pwnc	Rhif tudalen
Staffio	14
Partneriaethau	16
Asesiadau	17
Gofal	19
Amgylchedd	21
Gwirfoddoli	23
Llywodraethu	24



Pam mae Gwelliant Cymru, NDAA a'i bartneriaid yn arwain y gwaith hwn?

Oherwydd ei rôl greiddiol a'i safle strategol, gall Gwelliant Cymru:

- Hwyluso a chefnogi parodrwydd a gweithrediad yr egwyddorion deall dementia mewn ysbytai (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru).
- Meithrin perthnasoedd a phartneriaethau, gan gysylltu â phobl ac asiantaethau perthnasol gan gynnwys y rhai sy'n cynllunio, darparu a gofalu mewn ysbytai.
- Rhannu arfer da ar draws lleoliadau, sefydliadau a rhanbarthau gan hyrwyddo gwelliant.



Datganiad o Weledigaeth

'Mae dementia yn flaenoriaeth ym mhob un o'n hysbytai yng Nghymru ac mae'r Siarter yn amlinellu ein gwerthoedd a'n hegwyddorion yn genedlaethol a rhanbarthol ar sut i gyflawni hynny. Mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion hyn ar gyfer pawb o'r staff yn yr ysbytai, y gymuned a lleoliadau gofal eraill. Mae'n dangos beth y gall pobl sydd â dementia a'u gofalwyr ei ddisgwyl wrth fynd i'r ysbyty o'u cartrefi eu hunain.'

Gwerthoedd a Rennir dros Gymru Gyfan

- Mae sefydliadau a staff ysbytai wedi ymrwymo i wrando, dysgu, galluogi, bod yn garedig a gofalgarg. Gall staff ar bob lefel ochr yn ochr â phobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr wneud gwahaniaeth cadarnhaol gyda'i gilydd wrth sicrhau gofal da.
- Mae gwaith partneriaeth cryf rhwng y person, staff ysbytai, gofalwyr y person, teulu a chefnogwyr. Dylai hyn hefyd gynnwys sefyllfaoedd cymunedol megis cartrefi gofal a chyrff eraill sy'n ymwed â gofal y person.
- Caiff pobl sydd â dementia, eu gofalwyr, teulu a'u cefnogwyr gyfle a gwybodaeth briodol ac amserol iddynt allu gwneud dewisiadau am ofal, i wella eto eu hannibyniaeth a'u cyfle i wneud penderfyniadau.
- Mae ysbytai a lleoliadau gofal iechyd yn cymryd camau gweithredol i ddarparu'r hyn sydd i bob person sydd â dementia ei angen yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty. Bydd pobl yn teimlo'u bod yn cael croeso a'u clywed, gydag amrywiaeth o ddiwyllianau, profiadau ac anghenion gan grwpiau megis BAME, LGBTQIA+, siaradwyr Cymraeg a phobl ag anableddau dysgu'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.



Byddwn...

- Yn deall efallai y bydd yn well gennych siarad â ni a chael eich gofal yn Gymraeg. Byddwn yn sicrhau y gallwch wneud hynny.
- Yn sicrhau bod pobl sydd ag anghenion cyfathrebu ac iaith yn gallu cael gwasanaeth priodol, gan gynnwys gwasanaethau cyfieithu i gefnogi eu hanghenion gofal.
- Yn sicrhau bod pobl sydd â nam ar y synhwyrau, megis golwg neu glyw gwael, yn gallu cael eu sbectol a'u cymorth clyw. Pan fyddant mewn cyflwr gwael, dylid cymryd camau i'w trwsio mor fuan â phosibl. Pan fydd diffyg llwyr ar y synhwyrau, megis dallineb neu fyddardod, dylid darparu'r wybodaeth mewn ffordd y gall y person ei deall. Gall hyn olygu cyfieithu adnoddau ysgrifenedig i'r braille neu ddefnyddio dehonglydd ar gyfer iaith arwyddion.
- Yn cynnig i bobl o wahanol gymunedau ethnig wybodaeth am dementia sy'n briodol i'w diwylliant ac yn ddealladwy. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau presennol a sicrhau bod pobl yn deall mai cyflwr meddygol yw dementia.
- Ni fyddwn yn beirniadu pobl o wahanol gymunedau am gael dealltwriaeth o ddementia sy'n wahanol i'n dealltwriaeth ni. Rhaid inni sicrhau na fydd cael barn neu gred wahanol yn golygu nad yw pobl sydd â dementia yn cael y gofal a'r gefnogaeth angenrheidiol neu a fyddai'n llesol iddynt.
- Yn sicrhau urddas pobl bob amser. Yn helpu pobl gyda glanweithdra a gofal personol yn ôl eu hangen i sicrhau cymaint o annibyniaeth ag sy'n bosibl.
- Yn peidio byth â siarad am rywun o'u blaen heb iddynt fod yn rhan o'r sgwrs. Mae'n bwysig inni weld y person, nid y dementia. Gwnewch yn siwr wrth siarad am y person fod yr iaith yn barchus, yn osgoi labeli a sylwadau negyddol.
- Yn bod yn ofalus pryd a ble y byddwn yn siarad am wybodaeth breifat pobl.
- Yn cyfathrebu â phobl fel y dymunant heb ddefnyddio iaith sy'n trin y person fel plentyn.
- Yn peidio â dechrau dadl gyda phobl sy'n byw gyda dementia. Os na bydd anghydweld neu anhawsterau, yn delio â nhw mewn ffordd garedig, broffesiynol ac allan o glyw pobl eraill.
- Yn peidio byth ag anwybyddu pobl a bod eu hofnau a'u pryderon bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif. Dylem gymryd amser i ddeall anghenion pobl a delio â nhw.
- Yn cefnogi pobl pan fyddant yn bryderus, yn ceisio deall pam maen nhw'n teimlo fel hynny ac ymateb i'w hanghenion gan eu cefnogi mewn ffordd ddiogel.
- Yn hyrwyddo ac yn cefnogi gofal emosiynol pobl. Mae hyn yr un mor bwysig â chyflawni tasgau ymarferol.
- Yn gweithio ar y cyd â'r rhai sy'n adnabod y person orau.
- Yn deall, pan fydd pobl yn bryderus, eu bod yn gallu ymddwyn yn wahanol. Gall hyn darfu ar y person, ei ofalwr, ei gefnogwyr, teulu a staff. Dylem sicrhau pawb ein bod yn ymwybodol o hyn ac yn siarad amdano gyda'n gilydd.



Mae ysbytai Cymru wedi ymrwymo i ennill y Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru. Mae egwyddorion SPACE-VG sy'n dilyn yn amlinellu ymrwymiad ysbytai Cymru i ofalu am y rhai sydd â dementia.



S – STAFFIO

Ei weld, ei ddatrys!

Caiff staff ar bob lefel ganiatâd ac anogaeth i wneud gwahaniaeth wrth lunio gofal da. Mae dysgu a datblygu staff mewn gofal dementia yn bwysig a chaiff cyfleoedd i gael hyfforddiant eu gwerthfawrogi, eu cefnogi gyda buddsoddiad ynddynt. Caiff staff eu recriwtio sy'n cytuno â gwerthoedd a daliadau'r Siarter

Egwyddorion y Siarter:

- Caiff staff eu gwerthfawrogi, mae nhw'n gyfarwydd â rhannu arfer da, a chaiff y gwaith da wnânt ei ddathlu.
- Ar bob lefel mae rol arweinyddiaeth penodi ô wedi eu nodi sy'n gyfrifol am weithredu'r Siarter ac am ddarparu gofal dementia yn ddiogel. Mae'r rolau hyn yn weladwy, maent yn hawdd eu cyrchu, ac mae staff yn deall strwythur y sefydliad a phwy sy'n gyfrifol.
- Mae staff gofal dementia arbenigol ar gael, ac yn rheolaidd yn cynnig cefnogaeth a chynghor lle mae angen o fewn gosodiadau cleifion mewnol a lleoliadau cymunedol.
- Bydd pob agwedd ar ofal a chynllunio gofal yn cwmparu'r person, aelodau'r teulu, cefnogwyr a staff cartref gofal lle mae'n briodol.
- Mae'r staff i gyd yn ymateb i anghenion y person gydag agwedd o ddiddordeb a chynorthwyl, gan gydnabod ac ymateb i anghenion pobl.
- Mae staff yn darparu gofal personol mewn ffordd amserol a gwneir addasiadau i alluogi a chefnogi'r unigolyn.
- Mae addysg a datblygiad dementia yn orfodol i'r staff i gyd a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn adrannau clinigol gyda phobl sy'n byw gyda dementia. Dylai'r hyfforddiant fod ar lefel briodol sy'n cael ei disgrifio yn y Fframwaith Gwaith Da. Dylai hyn gynnwys sut i asesu anghenion a chynllunio gofal. Pan fydd y gofal wedi digwydd, dylem weld a yw hyn wedi gwneud gwahaniaeth i'r person.
- Caiff sylwadau o brofiad y person eu harchwilio gan ddefnyddio cyfarpar megis Mapio Gofal Dementia. Defnyddir y wybodaeth hon wedyn i ddatblygu ffyrdd i symud ymlaen a chefnogi dysgu.
- Bydd staff yn galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ogystal â gofal. Gall hyn fod mor syml â sgwrs neu ddarparu ysgogiad ar ffurf pethau maen nhw'n eu mwynhau fel gweithgareddau hamdden.
- Mae staff yn ymwybodol bod ymddygiad pobl yn fath o gyfathrebu, felly gall fod angen help arnynt i addasu er mwyn bodloni anghenion yr unigolyn hwnnw ar y funud honno.
- Bydd staff bob amser yn eu cyflwyno'u hunain yn briodol i gleifion, gofalgwyr a theuluoedd. Mae'r ymgyrch 'Helo, fy enw i yw' yn un ffordd o wneud hyn.
- Mae staff yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg ac ieithoedd eraill. Bydd recriwtio a hyfforddi staff yn cefnogi hyn.
- Mae gan staff wybodaeth ymarferol o egwyddorion yr holl gyfreithiau sy'n ymwneud â dementia, er enghraifft, y Ddeddf Gallu Meddyliol (2005) a'r Mesur Iechyd Meddwl (2009).
- Caiff staff eu hannog a'u cynorthwyo i ofalu am eu hiechyd eu hunain. Mae gweithlu iach yn gysylltiedig â chael gwell canlyniadau i bobl sydd â dementia.



P – PARTNERIAETH

Gweithio gyda'n Gilydd

Mae'n bwysig i bobl sydd â dementia, teuluoedd, asiantaethau gofal, cyfleusterau gofal cartref a gweithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i gael y canlyniadau gorau. Dylai pawb gael eu cydnabod yr un fath wrth ddarparu gofal a chefnogi'r symud rhwng gosodiadau gofal a'r cartref. Mae partneriaethau'n cynnwys dewis a rheolaeth mewn penderfyniadau sy'n adlewyrchu anghenion a barn pawb am y cymorth angenrheidiol.

Egwyddorion y Siarter:

- Mae'r sefydliad yn defnyddio egwyddorion 'Triongl Gofal' rhwng y sawl sydd â dementia, gweithwyr iechyd proffesiynol a'u teulu/gofalwyr. Mae angen ystyried John's Campaign neu brosiectau eraill sy'n canolbwyntio ar y teulu, gofalwyr a chefnogwyr.
- Ystyrir bod newid di-dor rhwng gosodiadau gofal a'r cartref yn hanfodol. Bydd rhyddhau yn dechrau ar y dyddiad yr eir i'r ysbyty. Dylai naill ai'r sawl sydd â dementia neu rywun a all gynrychioli ei anghenion gymryd rhan wrth gydlynw ei ofal.
- Dylai dewis iaith ac anghenion diwylliannol gael eu cofnodi a'u gweithredu i fod yn rhan o'r gofal. Dylai hyn bob amser gael ei gyfleu rhwng y staff dan sylw.
- Pan fydd pobl sydd â dementia sy'n byw ar eu pen eu hunain yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, byddant yn cael archwiliad llesiant cyn pen 24 awr. Gall hyn gael ei ddarparu gan aelod o staff y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol neu gorff elusennol.
- Bydd gan y person ddogfen sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi amdany'n nhw a'u bywyd megis dogfen 'Dyma Fi'. Bydd y ddogfen hon yn cael ei chadw gyda nhw bob amser a'i diweddarw gan bartneriaid gofal a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae hyn yn sicrhau y gall pawb fod yn rhan ar lefel bersonol a bod yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau'r person.
- Caiff pobl sydd â dementia a'u gofalwyr a'u teuluoedd gyfleoedd i ddweud sut y maent wedi cael gofal a pha fath o brofiad oedd hynny.
- Mae cyfathrebu da a gallu cael gwybodaeth glir hanfodol wrth gynllunio rhyddhau. Bydd hyn yn helpu deall y rhyddhau gan y bobl dan sylw, yn gyfle i godi cwestiynau neu bryderon ac yn arwain at ryddhau i'r cartref neu osodiadau gofal eraill yn ddiogel.
- Dylai pobl sydd â dementia a'u teuluoedd, gofalwyr a chefnogwyr i ddatblygu cynlluniau i'w cynnal gartref ar ôl eu rhyddhau. Gall hyn olygu dod o hyd i wasanaethau a gweithgareddau yn yr ardal leol a chysylltu â nhw.
- Dylid archwilio materion fel PŵerTwrnai Parhaus, Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw (gwneud penderfyniadau am driniaeth cyn bod yn sâl) a thrafodaethau am ddiwedd oes ac edrych arnynt eto. Dylid gwneud hyn gyda sensitifrwydd ac ystyried anghenion a sefyllfa pobl dan sylw.
- Gall cymorth profedigaeth fod yn ddefnyddiol i deuluoedd a gofalwyr, a chynigir y cymorth hwn cyn i berson farw.



A - ASESIAD

Adnabod y person

Mae asesiadau bob amser yn canolbwyntio ar y person ac yn ceisio nodi cryfderau er mwyn galluogi paratoi cymorth ar sail eu hanghenion. Mae asesiad yn cynnwys nodi a thrin amrywiaeth o gyflyrau a symptomau, fel deliriwm, iselder, gofal ymataliaeth a phoen. Defnyddir 'Dyma Fi' neu ddogfen gyfatebol i ddod i adnabod y person ac mae gwybodaeth ar ar gael i bob aelod o'r staff.

Egwyddorion y Siarter:

- Dylai asesiadau gynnwys:
 - » y person sy'n byw gyda dementia
 - » y gofalwr / y teulu
 - » staff cartrefi gofal
 - » cynrychiolydd neu eiriolwr ar ran y person
 - » asiantaethau gofal eraill os yn briodol
- Mae asesu'n cwmpasu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol pobl, gan gynnwys eu huchelgais a'u nodau unigol, yn ogystal â'u hanghenion iechyd corfforol a meddyliol.
- Mae asesu'n cynnwys pa iaith a dull cyfathrebu mae pobl â dementia yn ei ddweud sydd orau ganddyn nhw a beth sydd ei angen arnyn nhw. Caiff hyn ei adolygu'n gyson wrth i amgylchiadau'r person newid. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r Gymraeg a/neu ieithoedd eraill.
- Asesiad o gredoau ysbrydol neu grefyddol. Dylai hyn gynnwys beth y maen nhw'n dymuno ei weld i barhau i addoli neu fod yn rhan o gymuned ysbrydol neu grefyddol tra yn yr ysbyty.
- Mae ysbytai'n gweithio ar y cyd â sefydliadau fel Diverse Cymru er mwyn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i gefnogi amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig.
- Caiff poen ei asesu'n rheolaidd tra yn yr ysbyty. Pan ragnodir meddyginiaeth, dylai staff asesu a yw'r cyffuriau lladd poen yn cael unrhyw effaith er mwyn gallu gwneud addasiadau. Dylid cynnal asesiadau eraill wrth ystyried dulliau eraill o leihau poen.
- Ni chaiff pobl eu 'labelu', ac mae staff yn deall ac yn ystyried arferion, dymuniadau ac ymatebion rheolaidd yr unigolyn. Ni ddylid anwybyddu newidiadau mewn ymddygiad person.
- Cynhelir asesiad o fywyd beunyddiol person yn ei gartref/chartref ei hun (lle bo modd) gan fod yr amgylchedd hwnnw yn un cyfarwydd. Bydd hyn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o allu ac arferion y person.

- Bydd trafodaeth yn ymwneud ag unigrwydd tra yn yr ysbyty. Lle bo angen, cytunir ar gynllun cymorth gyda'r person er mwyn lleihau unigrwydd o ryddhau'r unigolyn o'r ysbyty.
- Ceir cynlluniau rhyddhau clir yn ymwneud â meddyginiaethau, er mwyn sicrhau diogelwch. Dylai hyn gynnwys asesiadau o'r person cyn ei ryddhau o'r ysbyty (lle bo modd) a gall gynnwys monitro pellach yn y gymuned.
- Er bod diagnosis o ddementia yn cael ei wneud y tu allan i'r ysbyty fel arfer, fodd bynnag, pan gaiff ei wneud yn yr ysbyty, fe ddilynir cyfarwyddiadau cylchlythyr a chanllawiau côd READ Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi'r person i gael ei atgyfeirio a'i roi mewn cyswllt â'r gwasanaeth asesu cof yn lleol ynghyd â'r Meddyg Teulu. Bydd hyn yn sicrhau mynediad i driniaeth, gwybodaeth a chymorth ôl-ddiagnostig.
- Caiff person â dementia ei gefnogi i wneud penderfyniadau'n ymwneud â'u gofal cyhyd â phosib. Os nad yw'r gallu gan y person i wneud penderfyniad penodol, dylid defnyddio unrhyw Atwrneiaeth Arhosol priodol. Os nad oes Atwrneiaeth Arhosol yn ei le, gall aelod o'r teulu neu ofalwr gyfleu barn y person, neu bydd Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol yn helpu i wneud penderfyniadau ar ei ran/rhan. Dylid helpu'r person â dementia i fod yn rhan o'r penderfyniadau yma drwy gydol y broses.
- Dylid annog trafodaethau'n ymwneud â gofal i'r dyfodol a defnyddio 'Cynllun Gofal Ymlaen Llaw' cyn gynted â phosib er mwyn sefydlu dymuniadau diwedd oes a'r dymuniadau gofal.
- Pan fydd person yn nesáu at ddiwedd ei oes, mae cyfathrebu amserol yn digwydd gyda'r person, ei ofalwr a'r teulu neu'r eiriolwr.
- Yn achos pobl sy'n siarad Cymraeg, darperir gofal gan ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg gan osgoi'r defnydd o wasanaethau cyfieithu a lle mae iaith yn rhwystr, defnyddir cyfieithwyr ar y pryd.
- Er mwyn adnabod dirywiad corfforol yn gynnar, dylai staff wneud bob ymdrech i ddeall sut mae'r person yn ymddwyn fel arfer (pan yn iach) gan dalu sylw arbennig i ddryswch newydd neu ddirywiad. Os nad yw'r hyn y mae'r person yn ei wneud yn rhan o'u hymddygiad arferol, yna dylid trin y dryswch fel un newydd.



G - GOFAL

Gyda'r person ac o'i gwmpas

Mae gofal yn garedig, yn galluogi, yn ymateb, a lle bo modd, yn hybu hunanofal a chryfderau, sgiliau a galluoedd unigol. Mae gofal yn cefnogi ac yn galluogi'r person i gynnal synnwyr o'i hunan a'i berthynas ag anwyliaid.

Egwyddorion y Siarter:

- Mae deddfwriaeth hawliau dynol a chydraddoldeb yn hanfodol wrth ddatblygu gofal i bobl â dementia mewn ysbytai.
- Gwneir pob ymdrech ymarferol i geisio canfod safbwynt, barn a dymuniadau'r person sydd â dementia, ei ofalwr, ei deulu neu'i eiriolwr. Dylai'r safbwyntiau hyn helpu i lunio'u cynllun a'r modd y darperir gofal.
- Defnyddir dogfennau fel 'Dyma Fi' i wneud cysylltiadau â phobl sy'n byw gyda dementia. Dylid eu darllen, eu hadolygu a'u diwedddaru'n rheolaidd.
- Darperir gwybodaeth mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn addas i'r person. Gall hyn gynnwys addasiadau ar gyfer colli clyw a golwg a newidiadau mewn sgiliau iaith.
- Darperir gofal, gwybodaeth a chymorth i'r person i ddewis yr iaith y mae'r person yn dymuno ei defnyddio yn ôl yr angen neu'r gofyn.
- Mae staff yn sicrhau y gall pobl â dementia gadw cysylltiad corfforol a pherthynas â'u hanwyliaid a phobl arwyddocaol yn eu bywydau.
- Darperir gofal gan ddim o staff sy'n darparu cyngor ac ymyrraeth i fynd i'r afael ag anghenion.
- Lle bo modd, gwneir addasiadau er mwyn gwneud yn siŵr bod y gofal yn sensitif i'w anghenion diwylliannol. Os nad oes modd sicrhau hynny bob amser, yna dylid cynnal trafodaeth rhwng yr unigolyn, y teulu a'r gofalwyr neu eiriolwr er mwyn gweld a oes ffyrdd eraill o ddarparu gofal.
- Mae gofal yn galluogi pobl i fod yn gorfforol ac yn wybyddol fywiog. Gall hyn gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddyn nhw neu gynnal sgiliau cyfredol fel gofal personol er enghraifft, ymolchi a gwisgo, brwsio'u gwallt ac annog annibyniaeth.
- Mae gofal yn cynnwys cynnal sgwrs a gwybodaeth i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol. Mae hefyd yn cynnwys dewisiadau'n ymwneud â byw'n iach ar gyfer pobl pan fyddan nhw'n dychwelyd adref. Mae hon yn neges bwysig i helpu pobl i aros yn iachach am gyfnod hirach.
- Mae gan bobl â dementia'r hawl i fynediad cyfartal i ofal lliniarol wrth nesáu at ddiwedd eu hoes. Dylai hyn gynnwys meddyginiaeth ar gyfer rheoli symptomau poen a chynlluniau i'w cadw'n gyfforddus.
- Mae staff yn ymwybodol o ddewis yr unigolyn o'u dymuniadau ar gyfer derbyn gofal diwedd oes, sy'n cynnwys mynd adref neu fynd i hosbis. Dylai staff wybod sut i gael gafael ar y wybodaeth hon ar gyfer yr unigolyn a'u teuluoedd.

- Mae dillad ac offer sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau therapiwtig ar gael i bawb yn rhad ac am ddim.
- Gall gofal gynnwys technoleg. Dylai fod mynediad i Wi-Fi rhad ac am ddim yn ogystal â dyfeisiadau technolegol.
- Cefnogir pobl â dementia i gymryd risgiau cadarnhaol fel modd o barhau i hybu eu hannibyniaeth a'u hapusrwydd, fel cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden os yw'n ddiogel i wneud hynny.
- Bydd eiriolwr annibynnol ar gael i bobl yn ôl yr angen.
- Gall y person neu'r teulu a gofalmwyr ddewis derbyn neu wrthod cynlluniau gofal dementia mewn ysbyty.





A – AMGYLCHEDD

Galluogi'r unigolyn

Mae'r amgylchedd yn gyffyrddus, yn grymuso ac yn hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r amgylchedd yn annog symudedd, gweithgaredd a rhyngweithio cymdeithasol. Mae cynllunio a chynnal a chadw ysbytai yn cynnwys creu ardaloedd sy'n deall ac yn ymateb i ofynion dementia. Mae cefnogaeth gan bob adran o safbwynt eu cynllunio, cyflawni'r gwaith a'u cynnal.

Egwyddorion y Siarter:

- Mae pobl sy'n byw gyda dementia a staff yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr amgylchedd yn addas, gyda chymorth asesiad The King's Fund Dementia Environmental Assessment. Ymysg y meysydd o ddiddordeb mae wardiau, clinigau cleifion allanol, llefydd parcio cyfeillgar, cyfleusterau toiled, yn cynnwys rhai ar gyfer gofalwyr, aelodau o'r teulu a chefnogwyr o fewn wardiau ac ardaloedd triniaeth ac adrannau damweiniau ac achosion brys (adrannau brys) a mân anafiadau.
- Cefnogi arwyddion, symbolau a marcwyr llwybrau drwy adeiladau a'u bod nhw'n gyson ar draws ysbytai'r rhanbarth.
- Darparu addasiadau i hyrwyddo symudiad yr unigolyn i symud o gwmpas yr amgylchedd yn ddiogel yn hytrach na chyfyngu ar ei symudiad.
- Paratoi 'pecyn croeso' a bod hwnnw'n cael ei gyfieithu i ddewis iaith yr unigolyn. Bydd y pecyn hwn yn egluro pa adnoddau, offer a chyfleusterau sydd ar gael yn yr ysbyty. Dylai'r pecyn gynnwys gwybodaeth am ystafell y gofalwyr a'r teulu, gwybodaeth bwysig sy'n nodi sut y gall gofalwyr a theulu helpu gyda gofal yr unigolyn (os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny) tra yn yr ysbyty.
- Cyfle i bobl i gyfarwyddo â chynllun y ward fel rhan o'r broses dderbyn. Dylai staff dreulio amser yn dangos i bobl ble mae popeth a chynnig help os ydyn nhw'n ymddangos yn ansicr. Gallai hyn gynnwys defnyddio celfi ac offer a allai fod yn wahanol i'r hyn a geir adref fel tapiau a handlenni.
- Lle bo hynny'n bosibl, sefydlu mannau sy'n gyfeillgar i'r rhai sydd â dementia ynghyd â chefnogaeth y tu allan y gall pobl â dementia, gofalwyr a theuluoedd fynd allan i'w mwynhau.
- Bydd mannau tawel wedi'u cynllunio ar gyfer pobl er mwyn sicrhau cyfyngu ar sŵn a phrysurdeb.
- Mae'r amgylchedd yn helpu pobl i weld, clywed a chyfathrebu'n well yn ogystal â hybu annibyniaeth.
- Trafodir y defnydd o dechnoleg, er enghraifft, clychau a radio sydd ar gael o fewn yr amgylchedd ynghyd â'r defnydd o osodiadau a'r defnydd priodol o ddodrefn ac offer.
- Mae'r staff yn wiliadwrus ynghylch newidiadau mewn tymheredd a goleuni, a chaiff y rhain eu rheoli er cysur i'r unigolyn.

- Ceisir osgoi symud a newid gwelyau yn yr ysbyty lle bo modd. Weithiau, mae'n amhosibl osgoi symud i leoliad arall felly rhaid gwneud pob ymdrech i gefnogi'r unigolyn a hysbysu'r gofalwr a'r teulu. Mae hyn yn cynnwys i ble mae'r person wedi symud iddo, y rhesymau am y symud a'r camau a gymerwyd i'w cefnogi ac addasu i'r amgylchedd newydd.
- Mae pobl yn derbyn pob cymorth a gofal i farw gydag urddas. Ystyrir materion fel mynediad i ystafell sengl neu addasiadau i'r amgylchedd ar gyfer y person sy'n marw a'i deulu a'i ofalwyr er mwyn cefnogi preifatrwydd.
- Bydd gan yr unigolyn le hygyrch i gadw'i eiddo personol a chysurlon. Bydd staff wrth law i helpu'r unigolyn i'w defnyddio a'u mwynhau.
- Mae gan bobl fynediad at eitemau sylfaenol fel dannedd gosod, sbectol, cymhorthion clyw a chymhorthion ac addasiadau eraill sy'n sicrhau eu bod yn dawel eu meddwl ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r staff yn gofalu bod y rhain yn lân ac yn gweithio'n iawn.





G - GWIRFODDOLI

Cyfleoedd

Caiff gwirfoddolwyr gyfleoedd i ddysgu a datblygu er mwyn cefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd. Dylai hynny gynnwys darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer gweithgareddau ystyrllon a gofal bugeiliol mewn modd diogel ac urddasol. Mae gwirfoddolwyr yn cefnogi staff cyflogedig ond dydyn nhw ddim yn cymryd eu lle.

Egwyddorion Siarter Gwirfoddolwyr:

- Cynnal sesiwn ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia Alzheimer's Society Cymru.
- Bod yn ymwybodol o anghenion ieithyddol pobl â dementia, eu gofalmwyr, cefnogwyr a'u teulu. Lle bo gofynion iaith, dylai cymorth fod ar gael yn y Gymraeg neu mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys iaith arwyddo.
- Caiff gwirfoddolwyr eu goruchwyllo a'u cefnogi'n rheolaidd yn eu rôl. Fe fyddan nhw'n cael eu hannog i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu a ddarperir gan fyrddau iechyd Cymru.
- Sicrhau bod y person yn gyffyrddus ac yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Dylid defnyddio eitemau cyfathrebu hanfodol fel dannedd gosod, sbectol a chymhorthion clyw. Mewn achosion o ddiffygion synhwyrdd, dylid cefnogi'r gwirfoddolwyr i ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau.
- Caiff rôl gwirfoddolwyr eu diffinio'n glir ym mholisiau'r bwrdd iechyd. Mae hyn yn cael ei gyfleu a'i ddeall gan y gwirfoddolwyr ac aelodau o staff sy'n gweithio gyda nhw.
- Ceir amrywiaeth o brofiadau gwirfoddoli ledled yr ysbyty. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau, gan fod pobl sy'n delio â dementia yn arbenigwyr drwy brofiad ynghyd ag aelodau o'r staff sy'n gwirfoddoli. Mae rhanbarthau yn mynd ati i recriwtio ac yn croesawu cais gan wirfoddolwyr o gefndiroedd a gallu amrywiol.





LL - LLYWODRAETHU

Yr amser iawn, yn y lle iawn, a'r person iawn

Mae llywodraethu yn golygu sicrwydd ein bod yn gwneud yr hyn yr ydym yn dweud y byddwn yn ei wneud. Cynhelir archwiliadau, arolygon ynghyd â siarad â phobl er mwyn sefydlu sut hwyl 'rydym yn ei gael ar bethau. Os nad yw pethau fel y dylent fod, cymerir camau adferol. Mae systemau ar waith i gefnogi gwelliant parhaus yn ansawdd y gofal ar gyfer pobl â dementia a'u gofawyr tra yn yr ysbyty. Dylai hyn gynnwys rhoi gwybodaeth i bobl mewn ffordd sy'n dangos ein bod yn deall dementia a bod yr ysbyty'n mabwysiadu ffyrdd o weithio sy'n cefnogi staff i ddarparu gofal sy'n dangos eu bod yn deall pobl sydd â dementia.

Egwyddorion y Siarter:

a. Strwythurau llywodraethu:

- Mae'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru a defnyddir y Datganiadau Dementia i lywio'r dulliau gofal.
- Mae uwch aelod o staff ym mhob rhanbarth yn arwain ac yn monitro'r broses o gyflawni'r strategaeth ddementia rhanbarthol.
- Mae gan y bwrdd iechyd aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd wedi'i benodi i fod yn gyfrifol am ofal dementia.
- Mae gan arweinydd arbenigol dementia clinigol fynediad i hyrwyddwyr dementia / gweithwyr cyswllt a gwirfoddolwyr a all weithio gyda phob ardal i gefnogi'r ddarpariaeth o ran gofal dementia.
- Ceir Grŵp Ffrwd Waith Siarter Ysbytai Deall Dementia yng Nghymru sy'n cysylltu â'r bwrdd dementia rhanbarthol. Mae'n cynnwys bob grŵp staff, y trydydd sector ac aelodau o'r cyhoedd sy'n monitro'r gofal a ddarperir gan gynnwys safbwyntiau pobl â dementia, eu gofawyr ac aelodau o'r teulu.
- Caiff ansawdd y gofal ei fonitro'n fewnol ac yn allanol drwy Grŵp Tasg Adolygu Partneriaid Rhanbarthol y Siarter.
- Darperir diweddariad cyson o'r gofal ar gyfer dementia i fyrdau dementia rhanbarthol a'r bwrdd partneriaeth ranbarthol gan Grŵp Llywio'r Siarter Ysbytai Deall Dementia yng Nghymru.
- Mae'r cytundebau gyda staff asiantaeth a chontractwyr yn nodi sut y byddan nhw'n cynnal egwyddorion y Siarter ac yn ymwneud â'u gweithredu.
- Mae'r sefydliad yn gefnogol i fenter Ffrindiau Dementia Cymdeithas Alzheimer Cymru
- Mae gan y sefydliadau arferion safonol, cadarn, a hygyrch er mwyn sicrhau diogelwch ac adrodd yn ôl ar broblemau.

- Mae'r sefydliad yn arddel egwyddor "gweld a sortio" er mwyn mynd i'r afael â themâu sy'n ymwneud â gofal ac anghenion pobl sy'n byw gyda dementia.

b. Adnoddau Dynol:

- Darperir cefnogaeth i staff i weithio'n hyblyg pan fyddan nhw'n gofalu am berson â dementia.
- Mae polisiâu a gweithdrefnau'n helpu i ymladd yn erbyn stigma tuag at weithwyr sy'n cael eu heffeithio gan ddementia a gwneir addasiadau rhesymol er mwyn eu galluogi i barhau i weithio.

c. Adborth:

- Mae system gadarn ar waith ar gyfer casglu adborth ystyrion yn amserol, gan gasglu profiadau pobl â dementia, eu gofaluwr ac aelodau staff. Lle mae'r adborth yn amlygu meysydd sydd angen eu gwella, fe ddylid treulio amser yn ystyried y materion ac ymateb yn ôl y gofyn. Dylai'r ymatebion fynd i'r afael â'r mater gan amlygu unrhyw gamau y dylid eu cymryd er mwyn gwella profiad pobl sy'n byw gyda dementia.
- Mae'r system hon a ddefnyddir ar gyfer casglu adborth i'w gweld yn glir ac ar gael yn rhwydd pan fydd ei hangen.

Egwyddorion Cyfathrebu:

- Mae strategaeth gyfathrebu ar gyfer Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru.
- Mae'r polisiâu ar gyfer canmol a chwyno ar gael mewn fformat sy'n addas ar gyfer pobl â dementia a'u teuluoedd.
- Trefnir grwpiau ffocws ynghyd a dulliau cysylltu eraill yn rheolaidd gyda phobl sydd â dementia a'u gofaluwr, ynghyd â phartneriaid allanol, lle bo hynny'n briodol.
- Mae'r ysbyty yn cymryd rhan yn yr Archwiliad Cenedlaethol ar gyfer Gofal Dementia gan ddefnyddio dull amlddisgyblaethol.
- Mae Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) ar gael ac wedi'i gyfeirio'n glir, gan ddarparu gwybodaeth am ofal a chymorth penodol ar gyfer dementia. Maen nhw wedi'u hyfforddi i ddeall anghenion pobl â dementia, eu gofaluwr, eu cefnogwyr ac aelodau o'u teulu.
- Mae gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a gofaluwr yn ddigon hawdd cael gafael arny'n nhw.
- Mae cyngor crefyddol ac ysbrydol ar gael yn hawdd ac yn wasanaeth 24 awr ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.
- Mae gwasanaethau'n darparu cynnig gweithredol yn y Gymraeg lle mai dyna yw prif iaith y person. Cefnogir staff i ddarparu gofal yn y Gymraeg. Darparir gwasanaethau a gofal yn y Gymraeg ac ieithoedd eraill yn ôl y galw. Anogir staff i wella'u sgiliau o'r iaith Gymraeg.
- Mae'r gwasanaethau yn cynnwys darparu cyfieithiad i brif iaith y person er mwyn cefnogi'r gallu i gyfathrebu a gofalu. Mae hyn hefyd yn cynnwys y defnydd o iaith Arwyddo Brydeinig (BSL) drwy gyfrwng person fyddai'n abl i ddefnyddio iaith arwyddo.
- Fe roddir gwybod i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofaluwr o'r cyfleodd sydd ar gael a'r hawl ganddyn nhw i ddewis os ydyn nhw'n dymuno cymryd rhan mewn ymchwil.



Yn ychwanegol at y Siarter hwn, mae:

- Ffurflen parodrwydd cyn-asesiad i'w chwblhau sy'n seiliedig ar ba mor barod mae'r bwrdd iechyd i weithio tuag at fabwysiadu'r Siarter.
- Offeryn hunanasesu ar-lein - Care Fit For VIPS a fydd yn ddefnyddiol i bob partner er mwyn pennu safbwynt y bwrdd iechyd o ran bodloni'r egwyddorion ac adolygu cynnydd wrth roi'r Siarter ar waith.
- Cynllun twf (gweithredu) i gynorthwyo'r holl bartneriaid i fodloni egwyddorion y Siarter.



Mae darparu gofal o gwmpas person, adeiladu perthynas a phartneriaethau'n thema drwy'r ddogfen hon a dylid ei hystyried o fewn pob egwyddor.

GYDA DIOLCH

Dyma'r partneriaid sydd wedi gweithio gyda Gwelliant Cymru a Chymdeithas Alzheimer Cymru i greu'r Siarter Ysbytai Deall Dementia yng Nghymru ar y cyd:

- Age Cymru
 - Arolygiaeth Iechyd Cymru
 - British Deaf Association
 - Byrddau Partneriaeth Ranbarthol Cymru
 - Gofal a Thrwsio Cymru
 - Arolygiaeth Gofal Cymru
 - Gofalwyr
 - Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
 - Crystal Creative Digital Agency
 - Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru
 - Dementia Matters Powys
 - Diverse Cymru
 - Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
 - Gwelliant Cymru
 - Llywodraeth Cymru
 - National Institute for Health Research
 - People living with dementia
 - Prifysgol Abertawe
 - Prifysgol Bangor
 - Prifysgol Caerdydd
 - Prifysgol De Cymru
 - Prifysgol Caerwrangon
 - Royal College of Psychiatrists
 - Gofal Cymdeithasol Cymru
 - TIDE
 - Uned Gyflwyno GIG Cymru
 - WCVA (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
 - Ysbytai GIG Cymru
- Gyda'n diolch arbennig i:**
- 3 Nations Dementia Working Group
 - Cymdeithas Alzheimer Cymru
 - Gwelliant Cymru
 - Lleisiau DEMENTIA
 - National Dementia Action Alliance
 - Ymarferwyr, gwirfoddolwyr a staff o bob lleoliad ledled Cymru

¹<https://fundingawards.nihr.ac.uk/award/13/10/80>

Am y wybodaeth ddiweddaraf ewch i'n gwefan a chofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr misol: www.gwelliant.cymru

Gallwch hefyd ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol:

Dilynwch ni ar Twitter [@GwelliantCymru](https://twitter.com/GwelliantCymru)

Cyfle i'n hoffi ni ar [Facebook](https://www.facebook.com/GwelliantCymru)

Tanysgrifiwch ar [YouTube](https://www.youtube.com/GwelliantCymru)

Cysylltwch â ni ar ein tudalen [LinkedIn](https://www.linkedin.com/company/gwelliant-cymru/)

Gwelliant Cymru

Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ



© Gwelliant Cymru 2022

Cyhoeddwyd Ebrill 2022

Mae'r ddogfen hon wedi'i thrwyddedu o dan y Creative Commons Attribution-NonCommercial-NoDerivatives 4.0 International (CC BY-NC-ND 4.0). Mae hyn yn caniatáu copïo ac ailddosbarthu'r ddogfen hon cyn belled â bod Gwelliant Cymru yn derbyn cydnabyddiaeth lawn a chlod. Ni ddylid ailgymysgu, trawsnewid nac ychwanegu ar y deunydd mewn unrhyw ffordd. I weld copi o'r drwydded hon ewch i <https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/>